# FFORWM MYNEDIAD LLEOL WRECSAM

## Adroddiad Blynyddol
## am y Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008

**Rhagair**
Mae Fforwm Mynediad Lleol Wrecsam yn parhau i ymwneud â materion o ran cefn gwlad a hawliau tramwy ledled y Fwrdeistref Sirol. Mae wedi ceisio datblygu dealltwriaeth o'r gwrthdrawiadau a all godi oherwydd defnydd y cyhoedd o gefn gwlad a'r gymuned ffermio'n ennill ei bywoliaeth o'r tir.

Bu'r fforwm wrthi'n ddyfal yn rhoi cyngor ar y Cynllun Gwella ar Hawliau Tramwy a gyhoeddir bob deng mlynedd gan helpu i lunio'r broses o ddatblygu'r map.

Mae'r cadeirydd wedi gweithio yn hynod galed i hybu gwaith y fforwm ac i sicrhau y rhoddir sylw i'w sylwadau. Diolch yn fawr i aelodau'r fforwm, ac yn arbennig i'r cadeirydd a'r is-gadeirydd am eu gwaith drwy gydol y flwyddyn.

**Martin Howorth, Rheolwr Parciau, Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy**

**Adroddiad y Cadeirydd**
Fy enw i yw Clive Menzies a chefais fy ethol yn gadeirydd y fforwm yn dilyn ymddiswyddiad Ieuan Lewis. Roedd Ieuan Lewis wedi arwain y gwaith o sefydlu'r fforwm yn ystod y blynyddoedd cyntaf a hoffwn ddiolch yn bersonol iddo am ei waith yn arwain y fforwm yn ddiogel a chadarn yn y cyfnod hwn.

Er mai defnyddio cefn gwlad i gerdded a wnaf yn bennaf mae gennyf ddiddordeb mewn ystod eang o faterion hamdden.

Eleni bu'r Fforwm Mynediad Lleol yn monitro'r gwaith o lunio a chyhoeddi'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy *(ROWIP)*. Ar ran y fforwm hoffwn ddiolch i Martin Howorth am ei waith, sy'n sicr yn golygu bod Wrecsam mewn sefyllfa well i dderbyn arian ychwanegol i helpu i weithredu'r cynllun hwn.

Bu'r fforwm yn ymwneud â'r broses o wneud argymhellion i'r Cyngor ar amryw o bynciau. Bydd hefyd yn parhau i fod yn weithgar yn y gwaith o wella mynediad i gefn gwlad.

Wrth geisio creu gwell cysylltiadau i gymunedau lleol mabwysiadodd y fforwm y strategaeth gyfathrebu genedlaethol arfaethedig a bydd yn cynnal o leiaf dau gyfarfod mewn cymunedau lleol yn y flwyddyn sydd i ddod.

Bwriedir ail-apwyntio i'r fforwm eleni a buaswn yn annog pobl i ymgeisio. Rwy'n sicr y bydd rôl y Fforwm Mynediad Lleol yn datblygu yn ystod y blynyddoedd i ddod a bydd ei ddylanwad ar yr awdurdod penodi'n parhau i gynyddu.

**Cynllun Gwaith ar gyfer y Flwyddyn i Ddod**

Yn ystod y flwyddyn i ddod, mae'r Fforwm Datblygu Lleol yn disgwyl archwilio, ystyried a gwneud argymhellion i'r awdurdod penodi yn y meysydd canlynol:

Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy *(ROWIP)*
Mapiau Diffiniol
Gorchmynion Addasu Mapiau Diffiniol
Mapio Rhyngweithiol
Ceisiadau Cynllunio
Cyllidebau ac Adnoddau
Mynediad at Ddŵr Mewndirol

**CYFLWYNIAD**

Sefydlwyd Fforwm Mynediad Lleol Wrecsam ym mis Tachwedd 2002. Mae aelodau'r Fforwm yn eu swyddi am dair blynedd a bydd aelodaeth yn newid trwy weithdrefnau dewis ac ymgeisio. Yn 2005 y digwyddodd hyn ddiwethaf gyda'r fforwm newydd yn dechrau gweithredu ym mis Tachwedd 2005.

O dan ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol greu Fforymau Mynediad Lleol. Pwrpas y Fforwm yw cynghori'r Awdurdod, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac eraill o ran gwella mynediad cyhoeddus i'r tir ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam at ddibenion hamddena awyr agored, a mwynhau'r ardal. Fodd bynnag, rhaid iddo wneud hynny gan ystyried anghenion rheoli tir a harddwch naturiol yr ardal. Mae pob cyfarfod o'r Fforwm ar agor i'r cyhoedd.

**Adroddiad Blynyddol**
Mae'r adroddiad hwn yn ceisio darparu crynodeb byr o waith y fforwm. Cyhoeddir ei gofnodion ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam neu gellir ei weld yn Neuadd y Dref yn ystod oriau swyddfa.

Yn ystod y flwyddyn mae'r Fforwm Mynediad Lleol wedi gwneud yr argymhellion canlynol i'r Awdurdod Lleol.

| Argymhelliad | Ymateb yr Awdurdod |
|---|---|
| Darparu adnoddau ychwanegol i fynd i'r afael â'r llwyth gwaith gormodol o ran mapio diffiniol. *(Cofnodion 04/05/07)* | Staff ychwanegol ar gael<br><br>*Gweler Cofnodion (31/08/07)* |
| Ymwneud â'r broses gwneud penderfyniadau ar gyfer gorchmynion gatio | Cytunodd y Pwyllgor Archwilio *Gweler Cofnodion (08/02/08)* |

**ADOLYGIAD BLYNYDDOL**

**Tir Mynediad**
Yn ystod y flwyddyn, nid oedd angen i'r Fforwm Mynediad Lleol roi cyngor penodol ar fynediad i dir agored gan na dderbyniwyd unrhyw geisiadau i wahardd neu i gau y tu hwnt i'r terfyn amser statudol penodedig.

Mae'r Fforwm Mynediad Lleol yn derbyn adroddiad gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru *(CCW*), ar weithgarwch o fewn ffiniau'r Cyngor.

**Adroddiad Blynyddol Ebrill 2006 i Mawrth 2007**
Cymeradwywyd yr Adroddiad Blynyddol gan y Fforwm Mynediad Lleol yng nghyfarfod 04/05/07.

**Cynllun Gwella Hawliau Tramwy**
Rhoddwyd gwybod i'r Fforwm Mynediad Lleol am gynnydd y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy trwy gydol y broses ddatblygu, ymgynghori a chyhoeddi'r cynllun. Ymgynghorwyd hefyd â'r Fforwm Mynediad Lleol a chyfrannodd y fforwm at y Cynllun Gwella cyntaf ar gyfer Hawliau Tramwy a gyhoeddir bob deng mlynedd. Darperir cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru trwy Gyngor Cefn Gwlad Cymru, a Wrecsam, trwy waith Martin

Howorth a staff y tîm hawliau tramwy, sydd mewn sefyllfa gref i fanteisio'n llawn ar y cyllid hwn.
*Gweler cofnodion (04/05/07, 31/08/07, 09/11/07, 10/11/06 ac 08/02/08).*

**Cynrychioli Pobl Ifanc**
Mynegwyd pryderon nad oedd gan y Fforwm Mynediad Lleol unrhyw ffordd o gynrychioli ieuenctid Sir Wrecsam. Mae'r Fforwm wedi ymdrechu i fynd i'r afael â'r pryder hwn trwy gynnal gweithdy ieuenctid. (Gweler cofnodion 31/08/07)

**Ceisiadau Cynllunio**
Mae'r Fforwm yn parhau i fonitro ceisiadau cynllunio sy'n gwrthdaro â'r rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus. Cytunwyd ar feini prawf y ceisiadau hynny lle dylid ymgynghori â'r fforwm yng nghyfarfod 09/11/07.

**Parcio mewn Encilfeydd**
Mynegwyd pryder am lefelau annigonol o barcio mewn mannau gwledig o fewn y sir. Roedd hyn yn achos pryder mawr yn Nyffryn Ceiriog, lle dywedwyd bod pobl sy'n defnyddio'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus yn parcio'n amhriodol ac yn achosi problemau i'r gymuned leol. Er yr hybir ardal Glyn Ceiriog fwyfwy mae darpariaethau parcio a chludiant cyhoeddus annigonol yno. Mae hyn yn achosi cryn bryder.

Gwirfoddolodd aelod o'r Fforwm Mynediad Lleol i gysylltu â Gogledd Gororau Cymru, a oedd yn crynhoi'r cais am brosiectau gwledig. Y gobaith oedd cael meysydd parcio ychwanegol drwy'r arian hwn. Hefyd ysgrifennodd y fforwm at bob cymuned leol briodol i'w hannog i nodi prosiectau addas mewn da bryd.

Yn anffodus nid yw hyn wedi bod yn llwyddiannus iawn ac mae parcio amhriodol yn parhau i fod yn broblem mewn rhai ardaloedd yn y sir.

Ym mis Awst dywedodd Karl Prakel, yn dilyn cyfarfod a gynhaliwyd y llynedd, fod yr amserlen bysiau a threnau wedi cael ei chydlynu ac o ganlyniad mae mynediad gwell yn Nyffryn Ceiriog.
*Gweler cofnodion (04/05/08, 31/08/07 a 09/11/07)*

**Mapio Rhyngweithiol**
Mae'r Fforwm yn parhau i edrych ar y maes hwn. O fewn y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy cyfeirir at y bwriad i sicrhau bod fersiwn o'r Map Diffiniol ar gael yn electronaidd. Fodd bynnag, mae'r fforwm hefyd yn archwilio i ddefnydd eraill ar gyfer mapiau.
*Gweler Cofnodion (04/05/07)*

**Creu Logo'r Fforwm**
Awgrymodd ysgrifenyddes y Fforwm, Emma Haldane y dylid creu logo y gellid ei ddefnyddio ar benawdau llythyr a gwahanol ddogfennau. Mae Fforymau eraill eisoes yn gwneud hyn. Hefyd byddai'n helpu i hybu hunaniaeth y Fforwm fel corff ar wahân i'r awdurdod penodi. Cytunwyd a gyda chymorth Dave Smith o'r Adran Hawliau Tramwy crëwyd y logo.

Hoffai'r fforwm ddangos ei werthfawrogiad i Emma Haldane a Dave Smith am eu hymdrechion yn hyn o beth.
*Gweler cofnodion (04/05/07 a 31/08/07)*

**Mynediad i Dir Mynediad yn Nyffryn Ceiriog**
Derbyniodd y fforwm adroddiad manwl gan Dr Gerald Moss ynglŷn â'r diffyg mynediad i rai rhannau o Dir Mynediad yn Nyffryn Ceiriog.

Cytunwyd i ysgrifennu at Gyngor Cymuned Ceiriog Ucha yn gofyn am eu cyngor ar sut i wella'r sefyllfa hon. Fodd bynnag nid oedd y Cyngor Cymuned yn gallu rhoi cyngor penodol. O ganlyniad nid oes modd cael mynediad i rai rhannau o Dir Mynediad yn Nyffryn Ceiriog o hyd.
*Gweler cofnodion (04/05/08 a 31/08/07)*

**Strategaeth Gyfathrebu**
Cytunwyd i fabwysiadu'r strategaeth gyfathrebu yn gyffredinol y cyhoeddwyd copi drafft gan y cynrychiolydd Cenedlaethol.
*Gweler cofnodion (31/08/07)*

**Gorchmynion Addasu Mapiau Diffiniol**
Roedd y maes dyletswydd statudol hwn ar gyfer yr awdurdod penodi'n parhau i fod yn achos pryder i'r Fforwm Mynediad Lleol.

Ysgrifennodd y Fforwm Mynediad Lleol at yr awdurdod penodi i fynegi ein pryderon ac argymell darparu adnoddau ychwanegol i fynd i'r afael â'r llwyth gwaith wrth gefn cynyddol. O ganlyniad penderfynodd yr awdurdod penodi i ychwanegu mwy o adnoddau drwy benodi arweinydd tîm newydd. Yn dilyn penodi Sean Hanratty i'r Fforwm Mynediad cymeradwyodd y fforwm ddatganiad newydd o flaenoriaethau o ran Gorchmynion Addasu Mapiau Diffiniol.
*Gweler cofnodion (04/05/07, 31/08/07, 09/11/07 a 08/02/08)*

**Arolygon Pum Mlynedd**
Fel rhan o ddymuniad y fforwm i fod yn fwy rhagweithiol gwirfoddolodd aelodau i gynnal arolygon o gymunedau lleol bob pum mlynedd i sicrhau bod yr awdurdod penodi'n bodloni ei ofynion o ran yswiriant. Mae hwn yn brosiect parhaus.
*Gweler cofnodion (04/05/07)*

**Cyllidebu**
Yng nghyfarfod mis Tachwedd rhoddwyd gwybod i aelodau'r fforwm bod y cyngor wedi gwario ei gyllideb cynnal a chadw. Ysgrifennodd y fforwm at yr awdurdod penodi'n datgan bod hyn yn annerbyniol ac yn argymell cyfeirio adnoddau ychwanegol i'r gyllideb hon.
*Gweler cofnodion (08/02/08)*

**Gosod Giatiau ar rai Priffyrdd i Atal Trosedd ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol**
Mynychodd cadeirydd y fforwm y Pwyllgor Archwilio pan oedd yn ystyried pa Bolisi oedd yr awdurdod apwyntio am ei fabwysiadu o ran gorchmynion gosod giatiau. Derbyniodd y Pwyllgor Archwilio y dylai'r fforwm fod yn ymwneud â'r broses o wneud penderfyniadau gan fod hyn yn ffynhonnell annibynol ac y byddai felly'n cryfhau'r broses.

**Cŵn yng Nghefn Gwlad**
Mae'r mater hwn yn peri cryn bryder i aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol. Cafodd ei godi'n genedlaethol ac yn lleol. Mae'r Fforwm Mynediad Lleol yn parhau i geisio canfod ffyrdd o helpu landlordiaid heb atal perchenogion cŵn ystyriol rhag defnyddio'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus. Mae achos penodol wedi codi o ran cŵn yn baeddu ym Mharc Erddig. Penderfynodd y Fforwm Mynediad ysgrifennu at yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol i ofyn am ddarparu biniau gwastraff cŵn. Yn anffodus nid yw'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi gweld yn dda i ymateb.
*Gweler cofnodion (31/08/07 a 09/11/07)*

**Blanced Gors *LIFE Active* ar Fynyddoedd y Berwyn**

Cafodd y Fforwm Mynediad Lleol gyflwyniad ar y gweithgareddau sy'n digwydd i adfer mannau corsiog y Berwyn.

**Adroddiadau'r Ceidwaid**
Mae'r Fforwm Mynediad Lleol yn derbyn adroddiad ym mhob cyfarfod sy'n amlinellu gweithgareddau'r ceidwaid. Mae'r ceidwaid wedi arwain teithiau a gwneud trosolwg o faterion cynnal a chadw cyffredinol yn cynnwys gwella arwyddion ffyrdd. Hefyd maent wedi bod yn ymwneud â gwelliannau i rwydweithiau o lwybrau cymunedol penodol.
*Gweler cofnodion 04/05/07, 31/08/07, 09/11/07 a 08/02/08*

**Adroddiad Cyngor Cefn Gwlad Cymru**
Derbyniwyd adroddiadau'n rheolaidd gan Alun Price ar ran y Cyngor Cefn Gwlad.
*Gweler cofnodion (04/05/07 a 31/08/07)*

**Clwy'r Traed a'r Genau**
Er nad effeithiwyd ar yr ardal yn uniongyrchol bu'r achos o Glwy'r Traed a'r Genau'n achos pryder i'r fforwm. Y teimlad oedd bod angen cymryd ymagwedd mwy cyson.
*(Gweler cofnodion 31/08/07)*

**Canllawiau Statudol Mynediad i'r Anabl**

Cyflwynodd Margaret Murphy bapur yn amlinellu'n glir y canllawiau statudol newydd a gynhwyswyd yn Neddf Priffyrdd 1980. Derbyniodd y fforwm ei safbwynt bod yr awdurdod penodi'n gweithredu ar sail y newidiadau hyn ac nad oedd angen gwneud argymhellion ar hyn o bryd
*(Gweler cofnodion 31/08/07)*

**Materion Traws Ffiniol**
Fel rhan o ddatblygu'r Fforwm penderfynwyd ceisio gwella'r berthynas waith gyda Fforymau cyfagos. Penderfynwyd yn arbennig i geisio creu gweithgorau i edrych ar faterion traws ffiniol.

**Materion Penodol**
Prosiect Llwybr Brymbo
Arwyddion yn Llanarmon Dyffryn Clwyd
Llwybrau drwy fuarthau ffermydd
Gyrru oddi ar y ffordd
Gorsaf Legacy
Erthygl Cylchgrawn Cyswllt
Atebolrwydd Llwyr
*Gweler cofnodion (31/08/07, 09/11/07 a 08/02/08)*